Jonathan Monk

Picture Post Card Posted From Post Box Pictured, 2014
10 x 15cm Indeterminate cerdyn post/postcard
£40/Wedi'i lofnodi, argraffiad diderfyn/Signed, unlimited edition

Mae gwaith Jonathan Monk yn ymestyn i'r gorffennol, gan edrych yn arbennig ar strategaethau artistiaid sy'n gysylltiedig â gwreiddiau celf Gysyniadol a Minimaliaeth. Mae'n mabwysiadu iaith y ddwy genre yma o gelf; mae'n britho ei waith â chyfeiriadau at ei hanes personol, ei deulu a'i fywgraffiad, yn ogystal â straeon bob dydd. Y teitl yw Picture Post Card Posted From Post Box Pictured ac mae'r gwaith hwn gan Jonathan Monk, yr artist o Brydain sy'n byw yn Berlin, yn rhan o gyfres o gardiau post sy'n cynnwys y rhai sydd wedi'u gwneud ar gyfer lleoliadau yn Efrog Newydd, Llundain, Brwsel a Pharis. Mae pob fersiwn yn y gyfres yn cynnwys llun o'r blwch post agosaf i'r oriel, y sefydliad neu'r siop lyfrau y mae wedi'i gynhyrchu ar ei gyfer. Mae'r fersiwn yma wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer MOSTYN ac mae'n cynnwys y blwch post y tu allan i'r oriel. Ar ôl prynu'r cerdyn post, bydd yr artist yn ysgrifennu'r cyfeiriad a'r neges o ddewis y prynwr, ynghyd â'i lofnod. Wedyn bydd y cerdyn post yn cael ei bostio o'r blwch postio sydd yn y llun ar y cerdyn post. Yn achos MOSTYN, mae hwn y tu allan i'r hen swyddfa bost y drws nesaf i'r oriel.

Jonathan Monk's work reaches into the past, looking in particular at the strategies of artists synonymous with the birth of Conceptual art and artists associated with Minimalism. While he adopts the language of these two art genres, he infuses his work with references he makes to his own personal history, family and biography as well as everyday anecdotes. Titled Picture Post Card Posted From Post Box Pictured, this work, by Berlin based British artist Jonathan Monk, is part of a series of postcard edition pieces, which includes those made for venues in New York, London, Brussels and Paris. Each version of the edition depicts an image of the closest postbox to the gallery, institution or bookshop that it is produced for. This version has been produced for MOSTYN and features the postbox which is outside the gallery. After purchasing the postcard, the artist will write the address and message that the purchaser would like, together with his signature. The postcard will then be posted from the postbox pictured on the postcard, which in MOSTYN's case is the postbox outside the former post office next door to the gallery.

Nina Beier

10£, weed, 2018
29.7 x 21cm
Papur deg punt, chwyn, ffrâm clipio/Ten-pound note, weed, clip frame
10 argraffiad wedi'u llofnodi a'u rhifo/Signed and numbered edition of 10
£650

Mae ymarfer amlddisgyblaethol Nina Beier yn cwestiynu ac yn eistedd yn y bylchau rhwng portreadau a'r rheini sy'n cael eu portreadu, cyflwyniad a chynrychioliad, a delwedd a gwrthrych. Mae ei gwaith hi ar gyfer arddangosfa In Addition yn cyfeirio at ei harddangosfa unigol ym MOSTYN yn 2013, a oedd yn cynnwys cyfres o weithiau o dan y teitl Greens. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys planhigion palmwydd o'r tŷ wedi'u gwasgu ar lieiniau traeth, a oedd yn cyfleu papurau arian mewn gwahanol fathau o arian. Mae 10 £, weed yn ddilyniant o Greens, ac mae ei faint llai yn sylw ar gyfres In Addition a bod yn waith celf. Mae'n parhau i godi cwestiynau ynglŷn â'r syniad o werth, twf, amser a darfyddiad.

Nina Beier's multidisciplinary practice both interrogates and sits in the space between the portrait and the portrayed, presentation and representation, image and object. Her edition for In Addition is a reference to her solo exhibition at MOSTYN in 2013 which featured a series of works titled Greens, involving pressed palm houseplants placed on beach towels depicting bank notes of various currency. 10 £, weed follows on from Greens, and in its downscaled size is a comment on the In Addition series and being an edition, and continues questions about ideas of value, growth, time and cessation.

Gabriele de Santis

Work on paper, on paper, on paper, 2018
Nodiadau Post-it/Post-it notes
29.7 x 42.0cm
3 argraffiad wedi'u llofnodi a'u rhifo/Signed and numbered edition of 3
£500

Mae gwaith Gabriele de Santis yn symud drwy amser, yn pendilio rhwng hanes Rhufain, ei ddinas enedigol, a diwylliant cyfoes, gan aros rhwng y ddau i deithio drwy hanes y celfyddydau. Mewn cyfres o'i beintiadau, er enghraifft, gwelwn hanes trwm a grymus gwenithfaen yn gwrthdaro ag iaith rugl ac ebrwydd y cyfryngau cymdeithasol. Mae ei weithiau ar gyfer arddangosfa In Addition yn cynnwys tirwedd wedi'i gwneud o un o hanfodion y swyddfa, nodiadau Post-it. Gan ddefnyddio pob math gwahanol o nodiadau Post-it y gallai De Santis gael gafael arnynt yn y siop o dan ei fflat, mae wedi defnyddio'r deunydd i greu tri darn o waith amrywiol – a phob un â'i rhythm a'i gyflymder ei hun. Casglwch y tri ohonynt!

The work of Gabriele De Santis moves through time, oscillating between his native city of Rome's history and contemporary culture, with stops in between to journey through art history. In a series of paintings, for example, his work sees the heavy and weighty history of marble colliding with the fluid and instantaneous language of social media. His editions for **In Addition** envisage a contemporary landscape composed of an office staple, the Post-it note. Using all the different types of Post-it note that De Santis could find in a store located underneath his apartment, the editions animate the material to produce three variations, each with its own rhythm and speed. Collect all three!

Alek O.

Multicolour, 2018
papur/paper
23 x 30cm
3 argraffiad wedi'u llofnodi a'u rhifo/Signed and number edition of 3
£300 (heb ffrâm/unframed)

Mae Alek O. – artist a anwyd yn yr Ariannin – yn aml yn gweithio gyda gwrthrychau sy'n bodoli eisoes ac yn defnyddio ac yn addasu dulliau traddodiadol o greu celf, fel peintio, lluniadu a brodio. Drwy drawsnewid gwrthrychau y mae hi wedi dod o hyd iddynt neu sydd wedi cael eu rhoi iddi – er enghraifft, pethau personol neu bethau roedd ffrind neu aelod o'r teulu'n arfer berchen arnynt – mae'n newid eu ffurf a'u hedrychiad mewn ffordd sy'n gwneud iddynt ymddangos fel pe baent yn adlewyrchu cyfnodau o hanes celf, Minimaliaeth ac Arte Povera yn bennaf, ond eto, maent yn gwrth-ddweud eu hanes eu hunain ar yr un pryd. Yn ei gwaith, mae hi wedi defnyddio hysbyseb o gylchgrawn dylunio Eidalaidd o'r 1990au, lle mae'r pensaer Alessandro Merdini wedi'i gynnwys mewn hysbyseb fel seren enwog sy'n hyrwyddo cwmni teils. Mae'r tri darn yn ymwneud yn uniongyrchol â fframwaith cysyniadol In Addition. Mae'r artist yn defnyddio'r un hysbyseb deirgwaith ac yn ailffurfio'r tri i greu cyfluniadau newydd – gan bwysleisio gwahanol werthoedd y cwmpasau argraffu a lliw rhwng pob hysbyseb a'r cylchgronau roeddynt wedi'u cynnwys ynddynt.

Argentinian born artist Alek O. often utilises ready-made objects and both adopts and adapts traditional methods of art making such as painting, drawing and embroidery. Transforming objects that she has found or been given – things from her personal domain or that formerly belonged to her friends or family for example – she changes their form and appearance in such a way that they seem to recall particular periods of art history, namely Minimalism and Arte Povera, and highlight, yet belie their particular histories. Her edition takes an advert from the 1990s Italian design magazine Abitare, where the architect Alessandro Mendini features as a celebrity endorsement of a tiling company. The three pieces directly engage with the conceptual framework of In Addition, taking the same advertisement three times over, and recomposing all three to make new configurations – underlining the different colour and print register values between each advertisement and the magazine that they were contained within.

Diango Hernández

El Mar
Lithograff gwreiddiol wedi'i argraffu â 2 garreg + lliw dwylo (glas) ar bapur Velin d'Arches 300 g./Original lithograph printed from 2 stones + handcoloring (blue) on 300 g. Velin d'Arches paper, 69 x 100cm
30 ex. + 3 PP + 3 AP + 1 Archif wedi'u rhifo a'u llofnodi gan yr artist/
30 ex. + 3 PP + 3 AP + 1 Archive numbered and signed by the artist
£1400 (wedi fframio/framed)/£1000 (heb ffrâm/unframed)

Mae gwaith Diango Hernández yn cysylltu ei fywgraffiad a'i fagwraeth yn Cuba â geirfa esthetig sy'n anfarwoli ac yn drysu ei hiraeth am ei wlad enedigol a'i atgofion o fyw yno ac ymweld â hi. Mae cyfres ddiweddar o'i waith yn defnyddio tonnau fel motiff gweledol yn ailymddangos, sy'n esgor ar ddarluniau barddonol, bron yn rhamantaidd, o'i wlad enedigol, gan fod yn alegori ar gyfer gorffennol a phresennol gwleidyddol cythryblus ei wlad ar yr un pryd. Ar gyfer arddangosfa In Addition, mae Hernández wedi cyfrannu gwaith o'r enw El Mar, sef lithograff y mae wedi ymyrryd ag ef â llaw er mwyn cyflwyno gwahaniaeth i rywbeth ailadroddus.

The work of Diango Hernández connects his biography and his upbringing in Cuba with an aesthetic vocabulary that both perpetuates and mystifies his longing for his native country and his memories of living and visiting there. A recent series of works uses waves as a recurring visual motif, conjuring poetic, almost romantic images of his native Cuba, while also being an allegory for his country's politically wrought past and present. For In Addition Hernández contributes an edition titled El Mar, a lithograph featuring a handmade intervention, introducing difference into repetition.

Sol Calero

Dibujo, 12, 2016
Dibujo, 10, 2016
Dibujo, 8, 2016
Pasteli olew ar bapur/Oil pastel on paper
29.7 × 42cm (yr un/each)
Wedi'i lofnodi/Signed
£1500 (wedi'i fframio/framed)

Mae gwaith Sol Calero yn dwyn ysbrydoliaeth gan agweddau ar ddiwylliant ac achau, yn enwedig mewn perthynas â'i hanes ei hun. Mae ei gweithiau'n llawn bywyd, yn chwareus ac yn lliwgar, er eu bod ar yr olwg gyntaf yn rhoi camargraff o'u cynnwys gwleidyddol a beirniadol. Mae trosiadau gweledol ac arddulliol y ffrwythau a'r ffrogiau salsa wedi'u cynnwys i gwestiynu, i danseilio ac i dynnu sylw at broblemau o ran sut mae America Ladin, a'i gwlad enedigol hi (Venezuela) yn benodol, yn cael ei phortreadu, ei hyrwyddo a'i chyflwyno gan eraill. Mae'r tri darlun pastel ar gyfer arddangosfa In Addtion wedi'u cyfleu drwy ddefnyddio paled adnabyddus yr artist o liwiau glas, coch, gwyrdd a melyn. Er eu bod yn ymddangos yn reddfol, yn ysgafn ac yn chwareus, mae'r darluniau hyn yn cynnwys negeseuon am gamddefnyddio a chamddehongli codau diwylliannol, yn ogystal â natur anniddig yr estheteg sy'n gysylltiedig ag ecsotigiaeth.

Sol Calero's work is informed by aspects of culture and ancestry, particularly relating to her own history. Her pieces are animated, playful and vibrant, though their appearance initially belies their political and critical content. Visual and stylistic tropes of fruit and salsa dresses are deployed to question, subvert and problematise how Latin America, specifically her native country Venezuela, is portrayed, promoted and mediated by others. The three pastel drawings for In Addition are rendered in the artist's signature palette of blues, reds, greens and yellows. While they appear instinctive, light and playful, the drawings carry with them the misuse and misconceptions of cultural codes and the troubled nature tied to aesthetics associated with exoticism.

Marinella Senatore

Because of sadness there is dance, 2018
Collage a pheintiad ar gardfwrdd llysiau, heb ei fframio/
Collage and painting on vegetable cardboard, unframed
21.0 x 29.7cm
3 argraffiad wedi'u llofnodi a'u rhifo/Signed and numbered edition of 3
£500 (heb ffrâm/unframed)

Mae ymarfer Marinella Senatore yn canolbwyntio ar gynnwys cymunedau a'r prosesau o gydweithio i ffurfio, i greu ac i adeiladu ei gweithiau celf, sy'n cwmpasu ffotograffiaeth, lluniadau, sain, fideo a gosodiadau. Er enghraifft, bu'n ffilmio opera, a oedd yn cynnwys gweithio gyda 20,000 o bobl o wahanol wledydd gyda swyddi amrywiol, gan gynnwys dawnswyr, seiri a myfyrwyr celf. Mae ei gweithiau ar gyfer arddangosfa In Addition yn ymwneud â'r prosiect sydd ar y gweill ganddi, sef The School of Narrative Dance, a ddechreuodd yn 2013. Drwy archwilio ffordd newydd o adrodd stori drwy goreograffi, mae'r gwaith hefyd yn ymchwilio i system addysg amgen sy'n annog cyfranogwyr i rannu eu sgiliau a datblygu rhai newydd.

Marinella Senatore's practice focuses on involvement of communities and the process of working together to shape, make and construct her artworks which encompass photography, drawing, audio, video and installation. A filmed opera, for example, involved working with 20,000 people from different countries and with diverse professions including dancers, carpenters and art students. Her works for In Addition reference her ongoing project The School of Narrative Dance, which began in 2013. Exploring another way of storytelling through choreography, the work also examines an alternative system of education which encourages participants to share their skills and to achieve new ones.